# CYNGOR CYMUNED Y FALI

# POLISI LWFANS AELODAU

Adolygwyd: 21/05/2025 Cymeradwywyd: 21/05/2025

| CYFLWYNIAD | |
| --- | --- |
| O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae gan unigolion sydd wedi derbyn swydd fel aelod o gyngor cymuned neu dref yr hawl i dderbyn taliadau fel a benderfynir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol1. Mae'r Panel yn cydnabod bod rhai swyddogaethau penodol i aelodau, yn enwedig o fewn y cynghorau cymuned a thref mwyaf yn golygu mwy o gyfrifoldeb. Mae pob cyngor felly wedi cael ei gategoreiddio yn ddibynnol ar ei incwm neu ei wariant.<br><br>Mae Cyngor Cymuned y Fali yn Gyngor Grwp 4 – Etholwyr o 1000 I 4999<br><br>Mae'r ddogfen hon yn rhoi:<br>a) Trosolwg o'r penderfyniadau a wnaed gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yng Nghymru mewn perthynas â thaliadau i'w gwneud gan Gyngor Grwp 4.<br>b) Datganiad o Bolisi Cyngor Cymuned y Fali mewn perthynas â gweithredu taliadau aelodau. | |
| **RHIF PENDERFYNIAD** | **PENDERFYNIAD CYNGOR CYMUNED Y FALI** |
| 43 - Rhaid i bob awdurdod perthnasol ddarparu taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol fel a ganlyn: | Mae hwn yn daliad gorfodol. Dim ond ar ôl dangos derbynebau gan y darparwr gofal y gwneir ad-daliad. |

| | |
|---|---|
| • Costau gofal ffurfiol (wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru) i'w talu fel y dangosir.<br>• Costau gofal anffurfiol (anghofrestredig) i'w talu hyd at gyfradd uchaf sy'n cyfateb i gyfraddau fesul awr y Cyflog Byw Gwirioneddol fel y'u diffinnir gan y Sefydliad Cyflog Byw ar yr adeg yr eir i'r costau.<br><br>Rhaid i hyn fod ar gyfer y costau ychwanegol yr eir iddynt gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy. Rhaid i bob awdurdod sicrhau bod unrhyw daliadau a wneir yn gysylltiedig yn briodol â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy. Dim ond pan gyflwynir derbynebau gan y darparwr gofal y gwneir taliad. | |
| 44 – Mae'n ofynnol i bob cyngor cymuned a thref i wneud taliad o £156 y flwyddyn i bob un o'u haelodau fel cyfraniad tuag at gostau a threuliau, h.y. tuag at gostau ychwanegol y cartref (gan gynnwys gwres, golau, pŵer a band eang) o weithio o gartref.<br><br>Mae taliad o £156 yn orfodol.<br><br>A rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall, rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost nwyddau traul eu swyddfa. | Fe delir y £156 i bob aelod oni bai eu bod yn rhoi gwybod i'r clerc yn ysgrifenedig nad ydynt am ei dderbyn.<br><br>Mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno ad-dalu'r aelodau am gost eu nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl |
| 45 – Gall cynghorau cymuned a thref yng Ngrŵp 4 wneud taliad o hyd at £500 yr un i hyd at 3 o aelodau i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol i'r taliad o £156 ar gyfer costau a threuliau.<br><br>Mae gwneud y taliadau yma yn ddewisiol. | Mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno gwneud taliadau ychwanegol ar gyfer Uwch Swyddogaethau fel a ganlyn:<br><br>Cadeirydd y Cyngor £500<br>Cadeirydd y Pwyllgor Parciau £250<br>Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid £250 |
| 46 - Gall cynghorau cymuned a thref wneud taliadau i bob un o'u haelodau mewn perthynas â chostau teithio am fynychu dyletswyddau cymeradwy. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu lwfansau milltiroedd CThEM fel a ganlyn: | Bydd y Cyngor Cymuned yn ad-dalu costau teithio i aelodau ddyletswyddau cymeradwy y tu allan i ffin y cyngor cymuned trwy gytundeb ymlaen llaw. Bydd y costau hyn yn seiliedig ar y gost wirioneddol o ddefnyddio cludiant cyhoeddus neu lwfans milltiredd HMRC. |

| | |
|---|---|
| • 45c y filltir hyd at 10,000 o filltiroedd yn y flwyddyn.<br>• 25c y filltir dros 10,000 o filltiroedd.<br>• 5c y filltir fesul teithiwr a gludir ar fusnes yr awdurdod.<br>• 24c y filltir ar gyfer beiciau modur preifat.<br>• 20c y filltir ar gyfer beiciau<br><br>Mae talu costau teithio yn ddewisol | Yn ychwanegol os ydy aelod wedi bod ar waith swyddogol ac wedi dibynnu ar berson arall i'w ddreifio (sydd ddim yn aelod o'r Cyngor Cymuned) yna gall yr aelod hawlio milltiredd yn ôl y gyfradd â benodir ynghyd ag unrhyw gostau parcio neu dollau, cyn belled â bod y Cyngor yn fodlon bod yr aelod wedi achosi'r costau. |
| 47 – Os bydd cyngor cymuned neu dref yn penderfynu bod dyletswydd benodol yn gofyn am aros dros nos yna gall awdurdodi i ddigolledu costau cynhaliaeth i'w aelodau.<br><br>• £28 fesul cyfnod o 24 awr ar gyfer prydau, gan gynnwys brecwast lle na ddarperir.<br>• £200 – Llundain dros nos.<br>• £95 – rhywle arall dros nos.<br>• £30 – aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos.<br><br>Mae talu costau cynhaliaeth dros nos yn ddewisol. | Mae'r angen i orfod aros dros nos yn annhebygol. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn ystyried talu costau cynhaliaeth dros nos petai'r angen yn codi. |
| 48 - Gall cynghorau cymuned a thref dalu iawndal colled ariannol i bob un o'i aelodau, pan fydd colled o'r fath wedi digwydd, ar gyfer mynychu dyletswyddau a gytunwyd.<br><br>a) Hyd at £63.37 ar gyfer pob cyfnod heb fod yn fwy na 4 awr.<br>b) Hyd at £126.74 ar gyfer pob cyfnod dros 4 awr ond heb fynd tu hwnt i 24 awr.<br><br>Mae'r taliad yma yn ddewisol. | Mae'r Cyngor Cymuned wedi dewis talu iawndal colled ariannol i'w aelodau. |
| 49 - Gall pob cyngor benderfynu cyflwyno lwfans presenoldeb i aelodau. Ni chaiff swm pob taliad fod yn fwy na £30. Ni fydd gan aelod sy'n derbyn | Mae'r Cyngor Cymuned yn dewis peidio talu lwfans presenoldeb i'w aelodau. |

| | |
|---|---|
| iawndal colled ariannol hawl i hawlio presenoldeb. lwfans ar gyfer yr un digwyddiad.<br><br>Mae'r taliad hwn yn ddewisol. | |
| 50 – Gall cynghorau cymuned a thref wneud taliad pennaeth Dinesig i'r maer/cadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500. Mae hyn yn ychwanegol i'r taliad o £156 at gostau a threuliau a'r lwfans uwch o £500 os hawlir hwy.<br><br>Mae'r taliad hwn yn ddewisol. | Mae'r Cyngor Cymuned am roi taliad ychwanegol o £100 y flwyddyn i Gadeirydd Cyngor Cymuned y Fali (yn ychwanegol i 45 uchod). |
| 51 - Gall cynghorau cymuned a thref roi taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig i ddirprwy faer/dirprwy gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £156 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch gyflog o £500 os hawlir y rhain.<br><br>Mae'r taliad hwn yn ddewisol. | Nid yw'r Cyngor Cymuned yn dymuno rhoi taliad ychwanegol i Is Gadeirydd y cyngor |
| **GWNEUD TALIADAU** | |

a) Mae pob aelod yn gymwys i gael ei dalu fel y nodir ym Mhenderfyniad 44, 45 a 50 o ddechrau'r flwyddyn ariannol (oni bai eu bod yn cael eu hethol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol). Bydd taliadau o'r fath yn cael eu gwneud ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ym mis Chwefror.

b) Telir y taliadau mewn perthynas â Phenderfyniadau 43, 46,47 and 48 pan fydd y gweithgaredd sy'n gysylltiedig â hwy wedi cymryd lle.

c) Gall unrhyw aelod unigol wneud penderfyniad personol i eithrio ei hunan yn gyfangwbl neu'n rhannol o'i hawl i dderbyn unrhyw un o'r taliadau hyn trwy roi rhybudd ysgrifenedig i swyddfog ariannol cyfifol y cyngor.

**GOFYNION CYHOEDDI**

Mae'n ofynnol i'r cyngor cymuned gyhoeddi manylion pob taliad a wnaed i aelodau unigol trwy Ddatganiad Taliadau blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon ar holl hysbysfyrddau'r cyngor ac/neu ar y wefan (gyda mynediad rhwydd) a'i e-bostio neu ei bostio at y Panel ddim hwyrach na'r 30ain o Fedi sy'n dilyn diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol.